Rhown foliant o'r mwyaf

Caneuon Ffydd: Rhif 469

Rhown foliant o'r mwyaf
i Dduw y Goruchaf
am roi'i Fab anwylaf
yn blentyn i Fair,
i gymryd ein natur
a'n dyled a'n dolur
i'n gwared o'n gwewyr anniwair.

Fe'n gwnaeth ni, blant dynion,
yn ferched, yn feibion,
i'w Dad yn 'tifeddion
o'r deyrnas sydd fry,
i fyw yn ei feddiant
mewn nefol ogoniant
er mawrglod a moliant i'r Iesu.

Fe gymerth ein natur,
fe'n gwnaeth iddo'n frodyr,
fe ddygodd ein dolur
gan oddef yn dost;
fe wnaeth heddwch rhyngom
a'i Dad a ddigiasom,
fe lwyr dalodd drosom y fawrgost.

Gwahoddwch y tlodion
a'r clwyfus a'r cleifion
a'r gweiniaid a'r gweddwon
â chroeso i'ch gwledd;
o barch i'r Mesïas
a'n dwg ni i'w deyrnas
i gadw gŵyl addas heb ddiwedd.

RHYS PRICHARD, 1579?–1644

MYFYRDOD

Poenai Rhys Prichard yn arw bod y Nadolig yn cael ei ddathlu yn ofer yn ei gyfnod ef, sef yr ail ganrif ar bymtheg. Erbyn ein cyfnod ninnau, dros bedair canrif yn ddiweddarach, fe aeth y rheswm am y dathlu yn ddibwys iawn, a masnachwyr yn ceisio ein denu o hyd i wneud mwy a mwy o sbloets o'r Ŵyl. Doedd dim yn well na phennill er mwyn argraffu rhyw wirionedd yn gofiadwy ar feddyliau gwerin anllythrennog y cyfnod. Camp yr Hen Ficer, fel y'i gelwid, oedd ysgrifennu toreth o benillion syml yn iaith y bobl er mwyn eu haddysgu am hanfodion Cristnogaeth. Cyfansoddodd lawer o'i benillion ar destun y Nadolig, oherwydd ei fod yn awyddus i ddwyn y bobl gyffredin at lawenydd gwirioneddol yr Ŵyl, a'u defnyddio er mwyn ystyried eu dyletswydd i foli Duw 'am roi'i Fab anwylaf yn blentyn i Fair'.

Dau emyn yn unig, a'r rheiny'n garolau, a gynhwysir o'i waith yn *Caneuon Ffydd* (gweler 436 – 'Awn i Fethlem'). Maen nhw'n ein harwain ni heddiw, fel yn ei gyfnod ef, i ddathlu'r hyn oll a gyflawnodd Crist drosom pan ddaeth 'i gymryd ein natur a'n

dyled a'n dolur i'n gwared o'n gwewyr anniwair'. Pe byddai mwy o bobl ei gyfnod wedi gwrando ar ei gynghorion gwerthfawr, efallai na fyddai'r Senedd Biwritanaidd o dan arweiniad Oliver Cromwell, wedi gorfod pasio deddf i atal y bobl rhag dathlu'r Nadolig oherwydd ei oferedd, a hynny ym mlwyddyn marw'r Ficer, sef 1644. Beth fyddai'r ymateb heddiw, tybed, pe beiddiai'r llywodraeth wahardd yr Ŵyl oherwydd ein camddefnydd ni ohoni?

'Gwaredodd ni allan o feddiant y tywyllwch ac a'n symudodd i deyrnas ei annwyl Fab', yw un o ddisgrifiadau Paul o waith Iesu drosom (Col. 1:13 BWM). Profiad cymysg yn aml yw gorfod symud cartref a newid aelwyd. Sonia'r Hen Ficer am y profiad o gael ein symud i fod ar aelwyd newydd nefolaidd 'i fyw yn ei feddiant', wrth i Iesu gynnig inni'r hawl a'n gwahodd i ddod yn feibion ac yn ferched, yn etifeddion yn wir, i Dduw. Profiad na all ond dwyn llawenydd a gorfoledd digymysg inni.

Nid yw'n dathliadau Nadoligaidd ni a'n gwledda ond cysgod o'r wledd nefolaidd y cawsom ni wahoddiad i'w chadw wrth dderbyn Iesu fel Meseia ac Arglwydd dros ein bywyd. Fe noda'r Ficer Prichard hynny yn ei bennill olaf yma, a hefyd mai rhywbeth i'w rannu ydy'r Nadolig: 'Gwahoddwch y tlodion a'r clwyfus a'r cleifion a'r gweiniaid a'r gweddwon â chroeso i'ch gwledd.' Cofiwn am y dyn hwnnw a gymhellodd bawb i ddod i'w wledd fawr yn nameg Iesu (Luc 14:15–24). Fel hwnnw, nid ydym i gadw ein dathliadau i ni ein hunain, nid ydym chwaith i gadw ein bendithion yng Nghrist i ni ein hunain, ond rhannu'r llawenydd ymhlith pawb o'n cwmpas. Rhannu wnaeth yr angylion gyda'r bugeiliaid y Nadolig cyntaf hwnnw: 'newydd da am lawenydd mawr a ddaw i'r holl bobl' (Luc 2:10). Mae cenedlaethau wedi rhannu byth oddi ar hynny, ac wedi eu dwyn 'i'w deyrnas i gadw gŵyl addas heb ddiwedd' i fod yn rhan o'r wledd fwyaf a wêl neb byth – gwledd briodas yr Oen (Dat. 19:5–9).

GWEDDI

O Dad, rhown foliant o'r mwyaf a'n diolch iti am y bendithion a ddaeth inni yng Nghrist – dy 'Fab anwylaf a roddaist i Fair'. Wnei di ein helpu ni i gofio'r bendithion hynny; cael heddwch rhyngom a byw yn dy feddiant yn etifeddion o'th deyrnas, wrth inni ddathlu'r Nadolig eto eleni. Helpa ni i rannu'r bendithion ag eraill gan wahodd bawb i'r wledd, i fod yn rhan o'r dathlu ar y ddaear ac yn y nef. Yn enw Iesu. Amen.